



RHONDDA CYNON TAF

CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion y Pumed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar Hugain y Cyngor, a gynhaliwyd ddydd Mercher, 16 Medi 2020 am 4.00pma.

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol – Aelodau o'r Cyngor a oedd yn bresennol:-

Y Cynghorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Adams	Y Cynghorydd S Belzak
Y Cynghorydd R. Bevan	Y Cynghorydd H. Boggis
Y Cynghorydd J. Bonetto	Y Cynghorydd S. Bradwick
Y Cynghorydd J. Brencher	Y Cynghorydd A Calvert
Y Cynghorydd G. Caple	Y Cynghorydd A Chapman
Y Cynghorydd A. Cox	Y Cynghorydd A. Crimmings
Y Cynghorydd J Cullwick	Y Cynghorydd L De Vet
Y Cynghorydd M Diamond	Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd S Evans	Y Cynghorydd S Evans
Y Cynghorydd M Forey	Y Cynghorydd A Fox
Y Cynghorydd H Fychan	Y Cynghorydd E George
Y Cynghorydd D. Grehan	Y Cynghorydd M. Griffiths
Y Cynghorydd J Harries	Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd L. Hooper	Y Cynghorydd G. Hopkins
Y Cynghorydd P. Howe	Y Cynghorydd G. Hughes
Y Cynghorydd P. Jarman	Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd K Jones	Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd R. Lewis	Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C. Leyshon	Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd K Morgan	Y Cynghorydd M. Norris
Y Cynghorydd D Owen-Jones	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd M Powell	Y Cynghorydd S Powell
Y Cynghorydd S Rees-Owen	Y Cynghorydd S. Rees
Y Cynghorydd A. Roberts	Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd G Stacey	Y Cynghorydd E Stephens
Y Cynghorydd G Thomas	Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd R Turner	Y Cynghorydd L Walker
Y Cynghorydd M. Webber	Y Cynghorydd E. Webster
Y Cynghorydd D. Williams	Y Cynghorydd J. Williams
Y Cynghorydd T Williams	Y Cynghorydd R. Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G. Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

186 Datganiadau o Fuddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

187 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G R Davies, J Davies, J Elliott, E Griffiths, J James, M Fidler Jones, L Jones, S Morgans, S Pickering, M Weaver, M Tegg, C Willis a G Williams.

188 Atal Rheolau Sefydlog

Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd ddatganiad mewn perthynas ag atal Rheol Trefniant 15.1 y Cyngor. Nododd, er mwyn ei gwneud yn haws cynnal y cyfarfod dros Zoom, fod Arweinwyr y Grwpiau wedi cytuno ymlaen llaw, lle y bydd pleidlais, bydd Arweinydd y Grŵp yn pleidleisio ar ran holl aelodau'r grŵp ar yr eitem.

Er mwyn rhoi'r gweithdrefnau diwygiedig ar waith, cynigiodd y Dirprwy Arweinydd atal Rheol Gweithdrefn 15.1 y Cyngor, sy'n nodi y bydd mater yn cael ei benderfynu os bydd mwyafrif ymhlith yr Aelodau sy'n pleidleisio ac sy'n bresennol yn yr ystafell adeg y bleidlais.

Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** atal Rheol Gweithdrefnu 15.1 y Cyngor

189 Etholiadau a Phenodiadau

Ethol Llywydd y Cyngor

PENDERFYNWYD – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Powderhill i fod yn Llywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21.

Cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill y Gadair yn dilyn ei benodiad.

Ethol Dirprwy Lywydd y Cyngor

PENDERFYNWYD – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i fod yn Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/21.

Derbyn anerchiad gan Faer y Cyngor 2019/2020

Manteisiodd y Maer ar y cyfle i fyfyrio ar ei blwyddyn fel Maer Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019/20. Cadarnhaodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol De Vet y byddai modd gweld ei datganiad llawn ar wefan y Cyngor, ac ychwanegodd, unwaith i'r holl arian ddod i law, y bydd ei chronfa elusennol yn gyfrifol am godi tua £23,000. Ar ran eu helusennau, diolchodd y Maer am y cymorth a'r gwaith codi arian a gyflawnwyd o dan amgylchiadau anodd iawn.

Wrth ymateb i hyn, talodd yr Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol, gan ei

chanmol am ei holl waith caled a'i hymdrechion yn ystod blwyddyn nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am Flwyddyn y Cyngor 2020-2021.

PENDERFYNWYD - ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021

(Nodwch: Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd nad oedd y Cynghorydd S Morgans yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd bod ei mam yn ddifrifol wael. Estynnodd ei dymuniadau gorau i'r Cynghorydd Morgans a'i theulu ar ran y Cyngor).

Yn ogystal â hynny, cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd mai'r Parchedig David Jones o Eglwys St Dunstan fydd Caplan y Maer newydd ar gyfer blwyddyn y Cyngor eleni.

Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am Flwyddyn y Cyngor 2020-2021.

PENDERFYNWYD - ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021

Penodi Arweinydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD – penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020/2021.

Diolchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan i'r Dirprwy Arweinydd, aelodau'r Cabinet, y Grŵp Llafur ac Aelodau'r Wrthblaid am eu cefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi bod yn heriol iawn. Diolchodd i'r Aelodau am gefnogi ei benodiad.

190 Swyddogaethau Gweithredol

Swyddogaethau Gweithredol - Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan y byddai'r cynllun dirprwyo diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Cyhoeddodd ei Gabinet a'u swyddogaethau unigol, fel y ganlyn:

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber, Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor

Diolchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber i'r Arweinydd am ei henwebu hi'n Ddirprwy Arweinydd y Cyngor a dywedodd fod hynny'n fraint. Nododd ei bod hi'n falch o fod wedi cydweithio â'r

Arweinydd wrth i'r Cyngor wynebu cyfnodau heriol iawn.

- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Bevan - Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings - Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden, a Gwasanaethau Treftadaeth
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol M. A. Norris - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J. Rosser - Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis - Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol
- Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C. Leyshon - Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc

191 Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor

Yn ei adroddiad, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wrth yr Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod, a gaiff ei adrodd yn rhan o fusnes y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa am y newid i Gydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor, a gafodd ei nodi yn y cyfarfod blaenorol, a hynny yn dilyn sefydlu Grŵp Annibynnol RhCT.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Adran 4 yr Adroddiad sy'n amlinellu pa seddi sydd wedi'u neilltuo ar gyfer pob grŵp ac, yn benodol, ymhelaethodd ar 4.2, sy'n amlinellu'r newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol cyfredol. Dywedodd fod Adran 5 yn amlinellu'r dyraniad o ran y cynigion ym Mlwyddyn y Cyngor 2019-20, ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ynglŷn â dyraniadau ar gyfer Blwyddyn nesaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD-

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma;
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Materion Cyfathrebu, i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, ar ôl iddo dderbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grŵp gwleidyddol, mewn unrhyw achos o dderbyn ceisiadau dilynol ar gyfer newid i aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'i gyfeirio at y Cyngor;

- 3 Nodi nad yw Aelodau'r Cabinet yn gymwys i'w penodi i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu na Phwyllgorau Craffu;
- 4 Nodi bod modd i o leiaf un Aelod o'r Cabinet eistedd ar y Pwyllgorau Archwilio a Gwasanaethau Democrataidd, ond bod Arweinydd y Cyngor wedi'i eithrio o'r swyddi yma;
- 5 Bod y Rhybuddion o Gynnig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021 fel y ganlyn:

Llafur - 10
 Plaid Cymru - 6
 Grŵp Annibynnol RhCT - 2
 Y Blaid Geidwadol - 1
 Aelod heb ei ddyrannu (x1) - 1

192 Penodi Aelodau Pwyllgorau 2020-2021

Ar ôl trafod adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd, **PENDERFYNWYD** –

1. Penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-21:
 - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)
 - Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)
 - Pwyllgor Penodi (x5 Aelod)
 - Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion (x5 Aelod)
 - Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x14 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad (x14 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant (x14 Aelod)
 - Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc (x14 Aelod) ac Aelodau Cyfetholedig Statudol
 - Pwyllgor Craffu - Materion Iechyd a Lles (x14 Aelod)
 - Pwyllgor Archwilio (x14 Aelod) ac 1 Aelod Lleyg
 - Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd (x14 Aelod)
 - Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol (x8 Aelod)
 - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)
2. Penodi 5 Aelod i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf. Bydd yr Aelodau'n cael eu penodi o aelodaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.
3. Penodi Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G Thomas ac S Powderhill yn Aelod ac yn Eilydd ar gyfer Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, yn y drefn honno.

193 Penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion 2020-2021

Yn ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu, yn gofyn i'r Cyngor ystyried penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021, a **PHENDERFYNWYD** -

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau sydd wedi'u rhestru isod: -

Committee	Cadeirydd	Is-gadeirydd
Pwyllgor Cynllunio a Datblygu	S.Rees	G.Caple
Trwyddedu	A.S.Fox	D.H.Williams
Penodiadau	D.Owen-Jones	M.Webber
Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion	J. Bonetto	S.Pickering
Cronfa Bensiwn	M.A.Norris	M.Griffiths

2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Diamond yn Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democraataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Webber fel yr Is-gadeirydd yn unol â'r amodau a bennwyd ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
3. Nodi, o dan ofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), 2011, mai'r Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am benodi'r Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor hwnnw;
4. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Archwilio fod yn gyfrifol am benodi'r Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwnnw;
5. Y bydd penodi Cadeiryddion y Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad a Phwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc i'w dyrannu i Grŵp Annibynnol RhCT a Grŵp Plaid Cymru yn y drefn honno;
6. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ar y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

Pwyllgor	Cadeirydd
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	L. M. Adams
Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	M. Powell
Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	S. Bradwick
Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	S. Rees-Owen
Iechyd a Lles	R. Yeo

7. Bod yr Aelodau canlynol yn cael eu henwebu yn Is-gadeiryddion ar y Pwyllgorau Craffu canlynol: -

Pwyllgor	Is-gadeirydd
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	W. Lewis
Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	G. Thomas
Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	T. Williams
Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	R. Edwards
Iechyd a Lles	S. Evans

- 8 Nodi penodiad y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a Materion Cyfansoddiadol;
9. Nodi bod Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y cyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-21 i'w benodi gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

194 Cyrff Lled Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc 2020-2021

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, i'r Cyngor ystyried penodi Aelodau ar gyfer y Pwyllgorau Lled-farnwrol/Ad Hoc sydd wedi'u nodi yn ei adroddiad.

PENDERFYNWYD -

1. Penodi'r Aelodau sydd wedi'u nodi isod i'r Pwyllgorau Lled-farnwrol/Ad Hoc canlynol sy'n wleidyddol gytbwys:-
 - Pwyllgor Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (Penodiadau) (x5 Aelod - 3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 Grŵp Annibynnol RhCT) - Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Brencher, D. Owen-Jones, S. Rees-Owen, J. Rosser. a M. J. Powell
 - Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (x5 Aelod – 3 Llafur, 1 Plaid Cymru ac 1 o Grŵp Annibynnol RhCT) - Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol J. Bonetto, W. Treeby, M. Weaver, M. Webber a M. J. Powell
2. Penodi Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings, R. Lewis, A. Morgan ac M. Webber (4 Aelod) i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (heb fod yn wleidyddol gytbwys).

195 Cyflogau a Lwfansau Aelodau - Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru Ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i'r Aelodau am y sefyllfa bresennol o ran cyflogau a lwfansau'r Aelodau yn unol â Deuddegfed Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (yr 'Adroddiad IRP').

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn unol â chyfarwyddiadau'r Panel, ac, fel y nodir yn adran 3.2 yr adroddiad, ei bod hi'n bwysig i'r Cyngor osgoi rhoi'r argraff bod y cyfarfod yma yn pennu lefelau tâl yr Aelodau, sydd ddim o fewn gallu'r Cyngor. Serch hynny, ceisir penderfyniad mewn perthynas â'r meysydd lle mae disgrisiwn lleol, sef hyd at uchafswm o 19 swydd cyflog uwch i'r awdurdod lleol yma (fel y nodir yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad).

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am gymeradwyaeth ar gyfer cyflogau a lwfansau'r Aelodau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD –**

1. Nodi penderfyniadau'r Panel fel y'u nodwyd yn ei ddeuddegfed adroddiad blynyddol;
2. Yn unol â bandiau cydnabyddiaeth Cyflog Dinesig, fel y manylir ym mharagraff 3.8 yr adroddiad, bod y Maer yn cael cydnabyddiaeth ariannol a bod swydd y Dirprwy Faer ddim yn cael cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-21;
3. Bod y swyddi canlynol yn cael eu talu ar Gyflog Uwch. Mae'r symiau i'w gweld yn Atodiad 2 i'r adroddiad ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021:-
 - Arweinydd y Cyngor
 - Dirprwy Arweinydd y Cyngor
 - x7 Swyddog Gweithredol (Aelodau'r Cabinet)
 - Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
 - Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu
 - Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
 - x4 Cadeirydd Pwyllgor Craffu
 - Cadeirydd y Gwasanaethau Democrataidd
 - Arweinydd y Brif Wrthblaid
 - Llywydd
4. Penderfynu na ddylid talu Arweinydd Grŵp gwleidyddol arall (nid yr wrthblaid fwyaf), sy'n cynnwys dim llai na deg y cant o aelodaeth y Cyngor, ar gyflog Band 5;
5. (i) Nodi mai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ystod Blwyddyn y Cyngor 2019-2020 (a benodir gan y Pwyllgor ei hun) oedd yr Aelod Lleyg Cyfetholedig o'r Pwyllgor - felly ni thalwyd Cyflog Uwch am y swydd yma;
- (ii) Penderfynu na ddylid talu Cyflog Uwch ddeiliad y swydd yma ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021 os nad yw'r Aelod Lleyg Cyfetholedig yn cael ei benodi'n Gadeirydd;
- 2.6 Cytuno bod taliadau i aelodau cyfetholedig yn parhau i fod yn daliadau sydd wedi'u capio ar uchafswm o'r hyn sy'n gyfwerth â 10 diwrnod cyfan y flwyddyn ar gyfer pob pwyllgor y mae'r unigolyn yn gyfetholedig iddo;
- 2.7 Cytuno bod penderfynu na ddylai dyletswyddau etholaeth gael eu hystyried yn ddyletswyddau i'w cymeradwyo at ddibenion hawlio lwfans

teithio;

- 2.8 Cadarnhau na fydd y Cyngor yn ad-dalu hawliadau cynhaliaeth ar gyfer busnes swyddogol sy'n digwydd yn y sir.

196 Cyrff Allanol a Phenodiadau i Bwyllgorau Eraill

Ar ôl ystyried adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu **PENDERFYNWYD** - bod yr Aelodau isod yn cael eu penodi i'r Cydbwyllgorau Anweithredol a'r cyrff Allanol canlynol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-21: -

2.1

- a) **Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (1 Aelod - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M. Norris).**
- b) **Cyngor Cyswllt Cymru (2 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M. Webber a D. Williams.**
- c) **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (5 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol Robert Bevan, Tina Leyshon, Andrew Morgan, Rhys Lewis a Maureen Webber.**
- d) **Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Pwyllgor Cydlynu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gynt) (1 Aelod ac 1 Dirprwy) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Andrew Morgan a'r Cynghorydd Maureen Webber yn Ddirprwy.**
- e) **Bwrdd Canolfan Cydweithredol Cymru (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis.**
- f) **Elusen Edward Thomas (4 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Fox, E George, R Lewis a S Pickering.**
- g) **Y Gynghrair (3 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Brencher, G Jones a G Thomas.**
- h) **Pwyllgor Cyswllt Glofa'r Tŵr (3 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H Boggis, K Morgan a G Thomas.**
- i) **Tribiwnlys Prisio Cymru - Panel Penodiadau (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber.**
- j) **Age Concern Cymru (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins.**
- k) **Pwyllgor Bowlio Dan Do Cwm Cynon (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan.**
- l) **Cist Gymunedol (3 Aelod) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - J Bonetto, A Crimmings a J Harries.**
- m) **Nentydd Cymru (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J**

Harries

n) **Busnes mewn Ffocws** (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan

o) **Trivallis** (1 Aelod) - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths

2.2 PANEL TROSEDD YR HEDDLU 2020 - 2021

Panel Trosedd yr Heddlu (2 Gynrychiolydd) - Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis a G Thomas.

2.3 CYDBWYLLGORAU ANWEITHREDOL

Penodi cynrychiolwyr y Cyngor ar y Cydbwyllgorau Anweithredol canlynol:

- a) **Awdurdod Tân ac Achub De Cymru** - (4 cynrychiolydd)
Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S A Bradwick, J Harries, G Holn
- b) **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** - (1 Cyn
Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Thomas

197 Calendr Cyfarfodydd 2020-2021

Drwy ei adroddiad, gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu, am gymeradwyo'r Calendr Cyfarfodydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2020-2021, sydd i'w weld fel Atodiad.

Yn unol ag Adran 6(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, cafodd Aelodau eu hysbysu o ganlyniadau'r arolwg diweddar i asesu dewisiadau'r Aelodau ynghylch amser cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.

Yn dilyn trafodaethau ac yn amodol ar fân newidiadau i'r calendr, fel y'u codwyd yn y cyfarfod, **PENDERFYNWYD:**

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; ac wrth wneud hynny, nodi'r ymatebion i'r Arolwg Aelodau Etholedig mewn perthynas ag Amser y Cyfarfodydd, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.
2. Ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, fydd cyfarfodydd ddim yn digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol, oni bai bod yna fater brys;
3. Cytuno ar y Calendr Cyfarfodydd arfaethedig ar gyfer y Blwyddyn y Cyngor 2020/2021, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad.
4. Nodi bod y calendr yn destun newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwmneud ar y cyd â chadeiryddion y pwyllgorau priodol.

198 Penodi Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio

Gofynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd am gadarnhad y Cyngor o benderfyniad y Pwyllgor Penodiadau, ynghylch penodi'r ymgeisydd a ddewiswyd, Mr. Christopher Jones i swydd Aelod Lleyg Pwyllgor Archwilio'r Cyngor am dymor yn y swydd, o ddechrau Blwyddyn Ddinesig 2020/21 tan yr Etholiadau Llywodraeth Leol cyffredin nesaf yn 2022.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, **PENDERFYNWYD** cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau y dylid penodi Mr. Christopher Jones i swydd Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio.

199 Materion Brys

Oherwydd amgylchiadau arbennig, roedd y Llywydd o'r farn y dylid ystyried datganiad gan Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan ynglŷn â'r Coronafeirws yn Rhondda Cynon Taf, yn fater brys.

Cyhoeddodd Arweinydd y Cyngor, yn dilyn cynnydd sydyn mewn achosion coronafeirws (COVID-19) yn Rhondda Cynon Taf, y byddai cyfyngiadau newydd yn cael eu cyflwyno i leihau lledaeniad y feirws ac amddiffyn iechyd pobl sy'n byw yn yr ardal. Bydd y cyfyngiadau yn dod i rym am 6pm ar 17 Medi 2020, ac yn cael eu hadolygu'n gyson, ond i ddechrau byddan nhw ar waith am bedwar diwrnod ar ddeg.

Dywedodd yr Arweinydd fod y cynnydd yn nifer yr achosion wedi'i achosi gan grwpiau o bobl yn cyfarfod o dan do, yn peidio â dilyn canllawiau cadw pellet cymdeithasol ac yn dychwelyd o wyliau haf dramor gan ddod â'r coronafeirws gyda nhw.

Canmolodd yr Arweinydd y swyddogion hanfodol sy'n arwain y garfan brofi ac olrhain am eu gwaith, wedi iddyn nhw nodi nifer fawr o drigolion, mwy na 1500 yn ystod y 12 diwrnod diwethaf, y mae gofyn iddyn nhw hunan-ynysu. Mae eu gwaith wedi nodi patrymau o achosion cadarnhaol a manau lle mae nifer sylweddol o achosion ledled y Fwrdeistref Sirol, ac wedi galluogi'r Cyngor i gyhoeddi'r cyfraddau cywir o ran achosion positif. Mae'r gallu i brofi bellach wedi'i gynyddu yn dilyn problemau cynharach gyda system genedlaethol y DU, a gafodd effaith andwyol ar allu pob safle i gynnal profion.

Mae'r carfanau gorfodi wedi bod yn ymweld â nifer fawr o adeiladau trwyddedig ac, o ganlyniad i hynny, mae nifer wedi cael rhybuddion gwella 48 awr. Mae staff ychwanegol wedi'u recriwtio i gynorthwyo gyda'r gweithgarwch gorfodi ledled y Fwrdeistref Sirol. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod ymweliadau â Chartrefi Gofal yn parhau i fod wedi'u cyfyngu i ofal diwedd oes yn unig.

Anogwyd yr aelodau i fwrw golwg ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, a fyddai'n cael eu rhannu cyn gynted â phosibl. Mae'r rhain yn nodi manylion y cyfyngiadau lleol fel bod modd i'r Aelodau gefnogi eu trigolion lleol.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.55pm

**Y Cynghorydd S. Powderhill:
Cadeirydd**